Cyswllt · Contact — Mrs Rebeca Jones
Ffôn · Telephone — 01766 770274
Ein cyf · Our ref — RJ
Eich cyf · Your ref
Dyddiad · Date — Medi 12 September 2018
e-bost · e-mail — Polisi.Cynllunio@eryri.llyw.cymru

SNOWDONIA NATIONAL PARK
PARC CENEDLAETHOL ERYRI
lle i enaid gael llonydd
SNOWDONIA NATIONAL PARK
one of Britain's breathing spaces

**Anfonwyd trwy e-bost / Sent by e-mail**

Annwyl Ymgynghorai,

**Cynllun Datblygu Lleol Eryri - Ymgynghoriad ar y materion a godwyd o'r Archwiliad Cyhoeddus**

Mae'r Awdurdod wedi gwneud newidiadau i Gynllun Datblygu Lleol Eryri diwygiedig, yn dilyn Sesiynau Gwrandawiadau'r Archwiliad a gynhaliwyd yn ystod mis Gorffennaf. Gelwir y diwygiadau hyn yn Newidiadau Materion a Godwyd a fydd yn destun ymgynghoriad cyhoeddus tan **5yh ar 25ain Hydref 2018.**

Bydd unrhyw sylwadau sy'n dod i law ar y Newidiadau Materion a Godwyd yn cael eu pasio i'r Arolygydd i'w ystyried. Mae'r ddogfen Newidiadau a Godwyd yn cael ei gyflwyno gyda'r canlynol:

- Adendwm Gwerthusiad Cynaladwyedd/ Asesiad Amgylcheddol Strategol: Asesiad o Newidiadau Materion a Godwyd
- Adendwm Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd: Asesiad o Newidiadau Materion a Godwyd
- Asesiad Effaith Iechyd o Newidiadau Materion a Godwyd
- Asesiad Effaith Cydraddoldeb o Newidiadau Materion a Godwyd

Gellir dod o hyd i'r dogfennau hyn, y ffurflen sylwadau ynghyd â nodiadau canllaw ar wefan Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri:

Dear Consultee,

**Eryri Local Development Plan - Consultation on the Matters Arising from the Public Examination**

The Authority has made amendments to the revised Eryri Local Development Plan, following the Examination Hearing Sessions held in July. These amendments are called Matters Arising Changes which will be subject to public consultation until **5pm on the 25th October 2018.**

Representations received on the Matters Arising Changes will be passed on to the Inspector for his consideration. The Matters Arising document is accompanied by the following:

- Sustainability Appraisal /Strategic Environmental Assessment Addendum: Assessment of Matters Arising Changes
- Habitats Regulation Assessment Addendum: Assessment of Matters Arising Changes
- Health Impact Assessment of Matters Arising Changes
- Equality Impact Assessment of Matters Arising Changes

The documents subject to consultation, along with the representation form and guidance notes are available on the Snowdonia National Park Authority's website:

http://www.eryri.llyw.cymru/archwiliad ac yn Swyddfa'r Parc Cenedlaethol ym Mhenrhyndeudraeth.

Gallwch hefyd ddod o hyd i'r dogfennau Newidiadau Materion a Godwyd mewn llyfrgelloedd cyhoeddus yn Abermaw, Bethesda, Blaenau Ffestiniog, Dolgellau, Penygroes, Tywyn, Porthmadog, Y Bala, Cerrigydrudion, Llanrwst, Llanfairfechan, Penmaenmawr, Conwy ac yng Nghanolfan Wybodaeth yr Awdurdod ym Metws y Coed yn ystod oriau agor arferol.

Dylid anfon sylwadau yn ysgrifenedig erbyn **5yp ar 25ain o Hydref 2018** at:

Y Tîm Polisi (Cynllun Datblygu Lleol),
Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri,
Swyddfa'r Parc Cenedlaethol,
Penrhyndeudraeth,
Gwynedd.
LL48 6LF

neu ar e-bost i Polisi.Cynllunio@eryri.llyw.cymru.

Mae ffurflen ar gyfer cyflwyno sylwadau ar gael o'r cyfeiriad uchod neu ar ein gwefan.

Am ragor o wybodaeth neu gymorth, e-bostiwch Polisi.Cynllunio@eryri.llyw.cymru neu ffoniwch 01766 770274 a gofynnwch i siarad â rhywun o'r Adran Polisi Cynllunio.

Yr eiddoch yn gywir

http://www.snowdonia.gov.wales/examination and at the National Park Office in Penrhyndeudraeth.

The Matters Arising Changes documents can also be found at public libraries in Barmouth, Bethesda, Blaenau Ffestiniog, Dolgellau, Penygroes, Tywyn, Porthmadog, Y Bala, Cerrigydrudion, Llanrwst, Llanfairfechan, Penmaenmawr, Conwy and at the Authority's Information Centre in Betws y Coed during normal opening times.

Representations should be sent in writing by **5pm on the 25th October 2018** to:

The Planning Policy Team,
Snowdonia National Park Authority,
National Park Office,
Penrhyndeudraeth,
Gwynedd.
LL48 6LF

or via e-mail to Polisi.Cynllunio@eryri.llyw.cymru.

A form for making representations is available from the above address or on our website.

For further information or assistance, e-mail Polisi.Cynllunio@eryri.llyw.cymru or phone 01766 770274 and ask to speak to someone in the Planning Policy Section.

Yours sincerely,

*Rebeca Jones*

**Rebeca Jones**
**Pennaeth Polisi Cynllunio / Head of Planning Policy**